Independent Monitor

# Monitor Annibynnol ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Adroddiad Blynyddol 2014



## Cyflwyniad

Dyma'r ail adroddiad blynyddol o'r Monitor Annibynnol ac mae'n bleser i mi gael cyflwyno'r adroddiad ar gyfer y cyfnod Ionawr i Ragfyr 2014.

Yn Ebrill 2014, yn dilyn proses ddethol ffurfiol, roeddwn yn falch i gael fy mhenodi i swydd y Monitor Annibynnol ar gyfer y tymor llawn o dair blynedd. Rwy'n croesawu'r cyfle i allu parhau i ddwyn y rôl bwysig hon ymlaen dros y blynyddoedd i ddod.

Yn fy adroddiad cyntaf fe gyflwynais bedwar argymhelliad (a welir yn atodiad A) yr ydwyf wedi nodi allai wneud gwelliannau i'r broses ddatgelu. Rydw i wedi derbyn ymateb gan y Llywodraeth (a welir yn Atodiad B) ac wedi dangos diweddariad ar bob un o fy argymhellion isod.

### Argymhelliad Un – Iechyd Meddwl

Rwy'n falch bod yr argymhelliad y dylid ailadrodd y canllaw ar ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl unigolyn i heddluoedd wedi ei dderbyn. Cyhoeddodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyngor dros dro i heddluoedd parthed hyn ac fe gyhoeddwyd y Canllaw Statudol wedi ei ddiweddaru ar 10 Awst 2015.

### Argymhelliad Dau – Gweithio mewn swyddi o'r cartref

Nid yw fy argymhelliad na ddylid cynnwys Gweithwyr mewn swyddi o'u cartrefi yn y Gwasanaeth Diweddaru wedi ei dderbyn yn llawn, ond rwy'n falch bod y Swyddfa Gartref a'r DBS wedi ystyried datrysiad amgen i'r mater pwysig hwn.  Mae'r DBS wedi diweddaru ei Ganllaw i Gyflogwyr i'r Gwasanaeth Diweddaru a hefyd wedi adolygu canllaw atodol ar Swyddi o'r cartref. Mae'r canllaw yn esbonio os yw cyflogwr eisiau canfod a oes unrhyw wybodaeth newydd ar gael ar unigolion eraill yn byw, neu wedi eu cyflogi yng nghartref yr ymgeisydd, bod yn rhaid iddynt ofyn am wiriad DBS newydd. Bydd y gwasanaeth diweddaru'n gwirio am ddiweddariadau ar yr unigolyn y cwblhawyd y gwiriad ar ei gyfer yn unig ac nid yw'n darparu gwiriad ar gyfeiriad cartref unrhyw unigolion eraill a gyflogir neu sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw.

### Argymhelliad Tri – Gweithlu yn erbyn "Swydd yr Ymgeisiwyd Amdani"

Nid yw fy argymhelliad i gyflwyno cynnyrch newydd a fyddai'n rhoi dewis unigol i'w ystyried ar gyfer rôl benodol, h.y. y swydd benodol maent wedi ymgeisio amdani, yn hytrach na'r gweithlu cyfan, wedi ei dderbyn. Nodaf ymateb y llywodraeth i'r argymhelliad hwn, ond mae'r mater hwn wedi parhau i godi dros y flwyddyn adrodd hon, a byddwn yn annog y Llywodraeth i ailystyried y mater.

### Argymhelliad Pedwar – Cyrff Cofrestredig

Mae'r argymhelliad o ran cynghori Cyrff Cofrestredig o'u cyfrifoldebau wedi ei dderbyn. Mae'r DBS wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Gofal ac Adsefydlu Troseddwyr (NACRO) a'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) i ddatblygu canllaw ar gyfer cyflogwyr ar sut i ddelio gydag ac asesu gwybodaeth sy'n ymddangos ar dystysgrif datgeliad. Lansiwyd y canllaw hwn yn Mai 2015 ac mae gwefan y DBS yn darparu dolen i'r canllaw. Mae'r DBS hefyd wedi manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo'r canllaw NACRO/CIPD ymhellach, er enghraifft, trwy Gylchlythyr y DBS sy'n cael ei ddosbarthu i'r Cyrff Cofrestredig a chyflogwyr. Yn ogystal, mae'r DBS wedi cadarnhau y byddant yn defnyddio cyfleoedd pellach yn y dyfodol i gyfeirio cyrff at y canllaw ac i ail ategu eu rolau a chyfrifoldebau."

## Trosolwg o'r flwyddyn

Mae gan y Monitor Annibynnol gyfrifoldeb dros ddau faes gwaith; adolygu sampl o achosion i sicrhau cydymffurfiad ac ymateb i apeliadau i bennu os yw deunydd wedi ei ddatgelu'n briodol. Ar hyn o bryd mae'r ddwy ddyletswydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac mae'r ddyletswydd gyntaf hefyd yn ymestyn i Ogledd Iwerddon.

Mae'r nifer o atgyfeiriadau a dderbyniais rhwng Ionawr a Rhagfyr 2014 wedi parhau i fod yn sefydlog er fy mod wedi dileu ychydig yn fwy o achosion eleni o gymharu â'r llynedd. Yn ogystal â'r adolygiad o anghydfodau gan ymgeiswyr ar gyfer Tystysgrifau Datgelu Manwl, rwyf wedi adolygu sampl o achosion gan heddluoedd. Mae'r achosion hyn yn rhai ble na chafwyd anghydfod ac yn cynnwys achosion ble na wnaethpwyd datgeliad. Rydw i wedi darparu adborth i'r heddluoedd hynny yr ydw i wedi adolygu eu hachosion. Yn y ddau faes yma, nid wyf wedi nodi unrhyw feysydd gofid arwyddocaol naill ai gyda heddluoedd unigol na rhanbarthau datgelu penodol, ac mae gweithrediad y Fframwaith Sicrwydd yn dal i fod yn gyson ymysg heddluoedd yn genedlaethol. Mae llwyth gwaith heddluoedd yn amrywio, ac mae'r amser i ddelio ag anghydfodau wedi ei effeithio gan hyn. Rwy'n credu bod yna arbedion i'w sicrhau yn y maes Datgelu, ac yn nodi ymdrechion rhai heddluoedd i gyfuno eu timau datgelu gyda heddluoedd cymdogol. Rwy'n croesawu'r drafodaeth barhaus yn y maes hwn, gan fy mod yn siŵr bod yna ffyrdd i wella gwasanaeth sydd eisoes yn effeithiol heb effeithio'n negyddol ar ymgeiswyr neu'r rhai mae'r broses yn ceisio eu diogelu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydw i wedi parhau i ymgysylltu gyda'r DBS ac wedi ymweld â'r holl grwpiau datgelu rhanbarthol a Gogledd Iwerddon i drafod arfer da ac unrhyw feysydd sy'n peri gofid. Yn 2014, fe dderbyniais wahoddiad i fod yn aelod annibynnol o Grŵp Portffolio Datgelu Cyngor y Penaethiaid Heddlu Cenedlaethol. Dyma'r grŵp strategol sy'n cwrdd i ddatblygu polisi datgeliad ac rydw i wedi ei gael yn gyfle defnyddiol i friffio arweinyddion strategol ar draws y maes datgelu ar faterion sy'n effeithio ar fy ngwaith. Rydw i wedi ymweld â thîm Atal y DBS gan fanteisio ar y cyfle i drafod y tebygrwydd a gwahaniaethau yn ein rolau priodol. Rwy'n dal i gwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r DBS a'r arweinwyr Plismona Cenedlaethol i drafod materion polisi ac arfer da.

## Edrych i'r Dyfodol

Cychwynnodd Deddf Cyfiawnder Gogledd Iwerddon ar 02 Tachwedd 2015. Er bod rôl y Monitor Annibynnol yn ymestyn yn rhannol i Ogledd Iwerddon, effaith y ddeddfwriaeth hon yw ymestyn rôl lawn y Monitor Annibynnol i adolygu anghydfodau datgelu a wnaed yng Ngogledd Iwerddon yn yr un modd ag y mae yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd, ac rwy'n edrych ymlaen at ymgymryd â'r rôl bwysig hon.

## Casgliadau

Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi bod yn un prysur, rwy'n falch i adrodd bod gan fy Ysgrifenyddiaeth nawr staff llawn ac edrychaf ymlaen at fanteision hynny. Rwy'n parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn gwella'r gwasanaeth mae fy rôl yn darparu, a hefyd i sicrhau bod hawliau'r bregus a'r rhai sy'n ceisio gweithio gyda nhw wedi eu hystyried yn llawn ar bob adeg.



**Simon Pountain**

## Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu danynt

Penodir y Monitor Annibynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997, ac mae ganddo ddwy ddyletswydd statudol.

Yn gyntaf, yn unol ag adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 (Deddf 1997), rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion ble darperir gwybodaeth nad yw'n ymwneud â chollfarn yr heddlu ar dystysgrifau cofnod troseddol manwl dan adran 113B(4) y Ddeddf. Diben yr adolygiad yw sicrhau cydymffurfiad gyda Chanllaw Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu ac Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

Yn ail, pan wneir cais am Dystysgrif Fanwl, mae manylion unigolyn yn cael eu cyfeirio at unrhyw heddlu allai fod â gwybodaeth am yr unigolyn. Mae hyn yn galluogi'r heddlu i wirio yn erbyn eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maent yn credu'n rhesymol i fod yn berthnasol i'r diben rhagnodedig dros geisio'r dystysgrif ac yna'n ystyried os dylid ei datgelu. Os nad yw ymgeisydd yn fodlon gyda'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu, yna gall ymgeisio i'r Monitor Annibynnol am adolygiad. Dan adran 117A Deddf yr Heddlu 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl o ran adolygu'r achosion hynny ble mae rhywun yn teimlo bod yr wybodaeth a ddatgelwyd gan heddlu mewn Tystysgrif Cofnod Troseddol Manwl Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd naill ai nid yn berthnasol i'r gweithlu maent yn ymgeisio ar ei chyfer, neu na ddylid ei datgelu.

## Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaethau'r Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd rôl y Monitor Annibynnol o ran adolygu atgyfeiriadau am wybodaeth a ddatgelwyd i heddluoedd gan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau (PoFA) 2012. Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r Monitor Annibynnol i gyflawni'r swyddogaeth hon yn Hydref 2012, ac mae nawr yn cynnwys dau aelod o staff llawn amser.

Cyn Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd yn y PoFA, yr unig fodd y gallai unigolyn oedd yn anfodlon gyda gwybodaeth oedd wedi ymddangos ar ei dystysgrif fanwl apelio oedd trwy gyflwyno apêl i Brif Gwnstabl yr heddlu perthnasol parthed cywirdeb y testun. Os nad oedd yr ymgeisydd yn fodlon gyda chanlyniad hyn neu eiriad cyffredinol y testun yna'r unig ddewis oedd gofyn am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu, a fyddai'n gostus i'r ymgeisydd a'r DBS o ran amser ac adnodd. Mae rôl y Monitor Annibynnol nawr yn gweithredu fel haen ychwanegol o adolygiad cyn bod rhywun yn gorfod troi at Adolygiad Barnwrol.

Ers ei greu ym Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2014, mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi derbyn cyfanswm o 673 o atgyfeiriadau gan unigolion sy'n poeni am wybodaeth a ddatgelwyd ar eu tystysgrifau datgelu. Mae papurau achos yn cynnwys y dystysgrif ddatgelu a ddarparwyd gan y DBS ynghyd ag unrhyw ddogfennau anghydfod am yr wybodaeth datgeliad y mae'r ymgeisydd wedi codi gyda'r DBS yn flaenorol. Unwaith y derbynnir achos, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth parthed yr achos a'r ymgeisydd ar gyfer unrhyw sylwadau pellach yr hoffent wneud. Ar dderbyn sylwadau, mae'r achos a gyfeirir yn cael ei gyflwyno i'r Monitor Annibynnol ar gyfer adolygiad.

Wrth wneud penderfyniad ar gynnwys gwybodaeth ar dystysgrif, ac yn dilyn canllaw statudol, mae'r Monitor Annibynnol yn rhoi ystyriaeth i:

1. A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn gywir;
2. A yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol i'r diben dros gaffael y dystysgrif (yn dilyn newidiadau polisi yn 2012 mae hyn nawr yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn gweithluoedd plant neu oedolion yn hytrach nag yn benodol i rôl benodol); ac
3. A ddylid datgelu'r wybodaeth, yn cynnwys;
   a. Beth yw'r nod gyfreithlon ar gyfer y datgeliad.

b. A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni nod gyfreithlon; ac

c. A yw'r datgeliad yn gymesur, gan sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rhai mae'r datgeliad yn ceisio eu hamddiffyn.


Mae'r holl feini prawf yn cael eu hystyried yn gyfartal, heb bwysoli. Wedi gwneud penderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y DBS a'r swyddog heddlu perthnasol yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Yn ogystal â darparu penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer adolygiad o ddatgeliad prif swyddog o wybodaeth a gymeradwywyd, mae'r Monitor Annibynnol hefyd wedi cyflawni'r ymarfer samplu gofynnol dan a119B (5) Deddf 1997. Mae'r ymarfer wedi cynnwys samplu gwybodaeth yr heddlu a ddarparwyd ar Dystysgrifau Manwl ar gyfer nifer o heddluoedd. Yn dilyn yr adolygiadau hyn, mae'r Monitor Annibynnol wedi darparu adborth i heddluoedd i sicrhau ansawdd a chydymffurfiad gyda Chanllaw Statudol.

## Atgyfeiriadau Achos y Monitor Annibynnol: Crynodeb 2014


Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol rhwng Ionawr a Rhagfyr 2014 o gymharu â'r un cyfnod amser yn 2013. Mae hefyd yn dangos yr un wybodaeth ar gyfer y cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr 2012 yn dilyn cyflwyno'r rôl Monitor Annibynnol. Mae 'Cynnal' yn cyfeirio at achosion ble rwyf wedi cefnogi datgeliad yr heddlu yn llwyr.

### Siart 1




Mae'r siart canlynol yn dadansoddi'r categori 'arall' uchod i ddangos sut y deliwyd â'r achosion.


### Siart 2



Yn gyffredinol gellir gweld bod y nifer o atgyfeiriadau wedi parhau i fod yn gyson tra cafwyd cynnydd yn y nifer o ddatgeliadau yr wyf wedi eu dileu'n llawn. Mae'r heddlu wedi tynnu llai o achosion yn ôl yn 2014 ac mae'n nodedig bod y nifer gyfunol o achosion a dynnwyd yn ôl yn 2013 (h.y. a ddilëwyd) gan yr heddlu a'r rhai a ddilëwyd gennyf fi bron yr un fath â'r cyfanswm yn 2014. Mae yna hefyd gategori a welir yn y siart uchod ar gyfer achosion a addaswyd. Yn achlysurol, ceir achosion ble rwy'n teimlo fod datgeliad angen rhyw addasiad ar wahân i ddileu'r testun. Gallai hyn fod yn ddilead a fyddai'n gwneud y testun yn ramadegol anghywir neu ble rwy'n credu fod y datgeliad wedi ei eirio'n oddrychol. Yn yr achosion hyn, byddaf yn trafod gyda Phrif Swyddog yr heddlu i gytuno ar ffurf addasedig o'r geiriau. Nid oes achosion yn weddill o flynyddoedd blaenorol.

Mae'r siart canlynol yn dangos cymhariaeth o'r gweithluoedd ble derbyniwyd ceisiadau am adolygiad.

## Siart 3




Sylwer na chofnodwyd unrhyw anghydfod yn y categori 'Arall' yn 2012 na 2013 gan fod Gyrwyr Tacsi wedi eu hystyried yn rhan o'r gweithlu Plant yn y blynyddoedd hyn.

## Argymhellion

Yn ystod 2014, fe adolygais 300 o achosion. Mae'r gwaith parhaus parthed yr argymhellion a gyflwynais y llynedd yn galonogol ac rwy'n hyderus y bydd cwblhau'r argymhellion hynny a gwblhawyd yn fuddiol i'r rhai sydd eisiau gweithio gyda'r bregus yn ogystal â'r bregus eu hunain. Eleni rwyf wedi nodi dau faes atodol ble rwy'n teimlo bod angen gwelliant i'r broses. Maent fel a ganlyn;

### 1. Cyflwyno amserlen ffurfiol ar gyfer codi anghydfod am ddatgeliad

Fy argymhelliad yw y dylid cyflwyno amserlen statudol ar gyfer codi anghydfod. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi sylwi y codwyd anghydfod am nifer arwyddocaol o achosion wedi cyfnod sylweddol yn dilyn cyhoeddi'r dystysgrif datgeliad. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi

bod hyd at bum mlynedd wedi cyhoeddi'r dystysgrif datgeliad ac yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn bydd y rheswm gwreiddiol dros ofyn am y dystysgrif wedi dod i ben gan ei bod yn annhebygol y bydd y rôl yr ymgeisiwyd amdani wedi cael ei dal yn agored i rywun dros gyfnod mor faith o amser.

Yn yr achosion hyn, os yw'r ymgeisydd eisiau sicrhau gwaith, neu wirfoddoli, yn un o'r dibenion rhagnodedig sy'n gofyn am Dystysgrif Datgeliad Manwl (gyda neu heb wiriad rhestr Wahardd gysylltiedig), byddai'n fwy priodol iddynt ymgeisio am dystysgrif newydd er mwyn i'r holl wybodaeth sydd ar gael i'r heddlu ar hyn o bryd gael ei ystyried yn defnyddio'r prawf presennol o berthnasedd, ynghyd â'r canllaw statudol diweddaraf a chyfraith achos, cyn gwneud penderfyniad parthed geiriad unrhyw ddatgeliad arfaethedig.

Felly mae'n ymddangos yn rhesymol i mi os nad yw ymgeisydd yn fodlon gyda chynnwys ei dystysgrif datgeliad, y dylai fod yn ofynnol i godi anghydfod o fewn cyfnod penodol o amser. Pan wneir cais am rôl benodol, mae'n rhesymol i dybio y byddai'r swydd yn cael ei dal ar gyfer ymgeisydd llwyddiannus wrth gwblhau gwiriadau cefndir. Rwy'n credu ei bod hefyd yn rhesymol i dybio wedi rhywfaint o amser, y byddai cyflogwr yn llai tebygol o gadw swydd yn agored. Rwyf wedi ystyried faint o amser ddylid caniatáu ar gyfer anghydfod a byddwn yn awgrymu y byddai swydd yn annhebygol o gael ei dal am fwy na chwe mis. Ar hyn o bryd mae'r DBS yn annog ymgeiswyr i gyflwyno anghydfod ynghylch eu tystysgrif datgelu o fewn 90 niwrnod, ond nid yw hyn wedi ei fandadu. Rwy'n credu bod hyn yn gyfnod amser rhesymol ac felly byddwn yn croesawu cyflwyniad amserlen statudol ar gyfer anghydfodau o dri mis calendr.

## 2. Cyflwyno strwythur ffurfiol i symud ymlaen gydag argymhellion.

Gan mai dyma yw fy ail Adroddiad Blynyddol bellach, rwy'n awyddus i ddatblygu strwythur i sicrhau bod yr argymhellion o hwn a fy adroddiad blaenorol yn cael eu dwyn ymlaen mewn modd amserol. Rhagwelaf y byddai'r strwythur hwn yn nodi perchnogaeth ar gyfer pob argymhelliad ac yn cofnodi cerrig milltir a chynnydd. Yna byddai hyn yn sicrhau bod y dibenion dros wneud yr argymhellion, h.y. diogelu hawliau pobl fregus a'r rhai sydd eisiau gweithio gyda nhw, yn cael eu hategu. Yna byddem yn adrodd ar gynnydd mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

# Atodiad A
# Argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol. Argymhellion 2012-13

**Iechyd Meddwl**: un o'r mathau mwyaf cyson o ddatgeliad yr wyf wedi ei ddileu yw'r un sy'n dogfennu iechyd meddwl rhywun. Ceir canllaw clir yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd (QAF) sy'n cynghori'r heddlu ar y materion i'w hystyried wrth ddatgelu materion iechyd meddwl. Rydw i wedi dileu nifer o ddatgeliadau sydd wedi dogfennu salwch meddwl, ond heb gyflwyno seiliau digonol ar gyfer datgeliad megis ymddygiad troseddol tra'n dioddef achos o salwch meddwl. Fy argymhelliad yw y dylid amlygu'r canllaw QAF perthnasol i heddluoedd er mwyn lleihau'r nifer o anghydfodau yn y maes sensitif hwn.

**Gweithio mewn swydd o'r cartref**: Rwy'n ymwybodol bod yna nifer o bryderon yn cael eu hamlygu gan yr arweinydd Plismona Cenedlaethol ar gyfer datgeliad parthed datgeliad trydydd parti. Un maes ble rwyf wedi nodi gwrthdaro posibl yw cynnwys Gweithio mewn Swydd o'r Cartref yn y gwasanaeth diweddaru a ddarperir gan y DBS.

Mae'r rhan fwyaf o ddatgeliadau ar gyfer Gweithio mewn Swydd o'r Cartref yn ymwneud â gwybodaeth am drydydd partïon sydd naill ai'n byw yn neu y credir bod ganddynt fynediad at y cyfeiriad ble bydd y gwaith yn digwydd. Mewn nifer o achosion, nid oes gan yr ymgeisydd gollfarnau blaenorol na gwybodaeth a byddai'n hapus i gofrestru ar gyfer gwasanaeth diweddaru a fyddai'n dangos ei gofnod glân yn y dyfodol.

Y broblem yw nad yw'r gwasanaeth diweddaru yn darparu manylion y trydydd partïon sydd wedi bod yn rhan o'r datgeliad cychwynnol. Mae cadw Gweithio mewn Swydd o'r Cartref yn y gwasanaeth diweddaru felly i weld yn cyflwyno risg diogelu sydd angen sylw.

**Gweithlu yn hytrach na'r swydd yr ymgeisir amdani**: ers cyflwyno'r dystysgrif symudol sengl, mae rhai pobl sy'n bwriadu gweithio mewn un rôl unigol benodol yn gweld bod gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r gweithlu plant neu oedolion ehangach ond nid o reidrwydd y rôl benodol dan sylw yn cael ei datgelu.

Rwy'n credu y gall fod angen am gynnyrch DBS atodol: tystysgrif sy'n gyfyngedig i rôl benodol.

Bydd yna hefyd unigolion sy'n ymwybodol iawn bod gwybodaeth a gedwir amdanynt yn berthnasol i risg diffiniadwy benodol (e.e. rhywun sydd o bosibl â gwybodaeth ar gofnod a fyddai'n berthnasol i rôl fel gweithiwr meithrinfa) a fydd eisiau ymgeisio am swydd yn gweithio mewn rhan benodol o'r gweithlu plant fel gweithiwr patrôl croesfan ysgol.

Nid yw cynnyrch seiliedig ar weithlu presennol yn darparu ar gyfer achlysuron o'r fath; bydd y datgeliad ar yr unigolion hyn, mewn rhai achosion, yn llai cymesur na chynnyrch seiliedig ar rôl.

Mae'r heddlu eisoes yn derbyn sylwadau yn datgan nad yw rhywfaint o'r wybodaeth yn berthnasol ac/neu gymesur i'w datgelu ar eu tystysgrif, gan ofyn nad yw'n cael ei datgelu gan eu bod eisiau gweithio mewn rôl benodol yn unig. Nid yw'r heddlu yn gallu caniatáu ar gyfer hyn gan fod yn rhaid i'w hystyriaethau fod yn seiliedig ar y Diben Rhagnodedig (gweithlu).

Rydym eisoes wedi gweld eithriadau ar gyfer hyn ar gyfer rolau sydd tu allan o'r gweithlu plant/oedolion: gwneir cais gyrrwr tacsi ar gyfer dibenion trwyddedu ar gyfer gweithlu 'Arall' a dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i swydd/rôl/gwaith penodol a ystyrir. Mae'r ymagwedd hon nawr yn cwmpasu'r holl rolau cymwys eraill nad ydynt o fewn y gweithluoedd plant/oedolion.

**Cyrff Cofrestredig**: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi gweld nifer o achosion bach ble mae'r corff cofrestredig wedi dynodi, mewn un ffordd neu'r llall, y byddent yn dal i gyflogi ymgeisydd pe byddai'r wybodaeth a gofnodwyd ar ei dystysgrif yn cael ei dileu. Ym mhob un o'r achosion hyn, mae'r corff cofrestredig eisoes yn ymwybodol o'r wybodaeth ac yn fy marn i yn ceisio 'peidio gwybod' am wybodaeth sy'n berthnasol i'w hystyried i ddibenion diogelu. Rwy'n argymell y dylid cael cyfathrebu clir gyda Chyrff Cofrestredig i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ac yn derbyn cyfrifoldeb ar gyfer y rhan bwysig iawn sydd ganddynt yn y broses ddatgelu.

# Atodiad B

Home Office

**Arglwydd Bates**
**Gweinidog yr Arglwyddi**
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF
www.gov.uk/homeoffice

**Simon Pountain**
**Monitor Annibynnol**
**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Chwefror 2015

Dear Mr Pountain,

Annwyl Mr Pountain,

Diolch i chi am eich Adroddiad Blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd. Mae hyn yn darparu cipolwg defnyddiol ar y materion ynghylch datgelu gwybodaeth cofnodion troseddol a rôl yr heddlu.

Diolch i chi am eich gwaith pwysig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd eich argymhellion ynghylch polisi ac ymarfer yn arbennig o ddefnyddiol ac rwyf wedi eu hystyried yn ofalus. Fe wnaethoch bedwar argymhelliad, a gyflwynir isod gyda'n hymateb.

Ar iechyd meddwl, rwy'n cytuno bod yna broblem o ran i ba raddau y datgelir carcharu dan y Ddeddf Iechyd Meddwl fel gwybodaeth heddlu gymeradwy ar dystysgrifau cofnod troseddol. Mae gwybodaeth am achosion o garchariad o'r fath yn amodol i'r un ystyriaethau cyfreithiol â gwybodaeth arall a gedwir gan yr heddlu: rhaid ei ddatgelu os yw prif swyddog yr heddlu yn ystyried ei fod yn berthnasol i ddiben y cais ac y dylid ei ddatgelu. Mae hyn yn debygol o ddibynnu ar amgylchiadau'r carchariad mewn achos unigol. Rwy'n hapus i dderbyn eich barn y dylid tynnu sylw'r heddluoedd at y canllaw ar y mater hwn yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd (QAF) a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac rwy'n deall bod y DBS eisoes wedi cymryd camau i sicrhau hyn.

Yn rhan o'r adolygiad ehangach o ddeddfwriaeth iechyd meddwl y mae'r Llywodraeth yn ei gyflawni ar hyn o bryd, byddwn hefyd yn ystyried os oes angen cryfhau'r Canllaw Datgeliad Statudol a gyhoeddom yn y maes hwn.


O ran gweithio mewn swyddi o'r cartref, ni allaf gytuno gyda'ch argymhelliad na ddylai unigolion sy'n ymgeisio am dystysgrifau cofnod troseddol allu ymuno â'r gwasanaeth datgelu. Byddai hyn yn atal diweddaru unrhyw wybodaeth cofnodion troseddol am yr unigolyn, ac amddifadu'r ymgeiswyr hynny o fuddion y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, rwy'n derbyn eich pwynt na all y gwasanaeth diweddaru ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau i wybodaeth am aelodau eraill y cartref a fyddai wedi bod yn destun gwiriadau ar gyfer gwaith mewn swyddi o'r cartref. Yn hytrach, byddwn yn

cymryd camau i gynghori cyrff cofrestredig y DBS a chyflogwyr a gynghorir, os yw tystysgrif cofnod troseddol blaenorol wedi cynnwys gwybodaeth trydydd parti, gofyn am dystysgrif newydd.

Eich trydydd argymhelliad oedd y dylid cyflwyno cofnod troseddol newydd ar gyfer swyddi penodol. Ein polisi yw y dylai tystysgrifau cofnod troseddol fod yn berthnasol i gyflogwyr yn y sectorau yr ymgeisir am waith ar eu cyfer. Ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, mae'r rhain wedi eu cyfuno i weithluoedd plant neu oedolion, ynghyd ag ambell gategori atodol. Mae hyn yn golygu bod rhywun sy'n chwilio am waith yn y sector plant yn derbyn tystysgrif cofnod troseddol yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol. Credaf y gallai achosi dryswch i gyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol i symud i sefyllfa ble mae gwiriadau yn ymwneud â swyddi unigol yn unig. Nid yn unig y byddai'n rhaid i'r dystysgrif ddatgan ei fod yn ymwneud â'r swydd honno yn unig, ond byddai angen i gyflogwyr a chyrff cofrestredig roi disgrifiadau gofalus o swyddi a dyletswyddau yr oedd tystysgrif benodol yn ddilys ar eu cyfer. O safbwynt diogelu, mae hefyd yn anodd rhagweld gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i un maes gwaith gyda phlant ond nid un arall, ac felly byddai newid yn gofyn am addasiadau arwyddocaol i'r fframwaith statudol. Felly nid ydym yn argymell mabwysiadu'r cynnig hwn.

Yn olaf, rydych yn cyfeirio at rai cyflogwyr neu gyrff cofrestredig yn awgrymu y gellid cynnig swyddi i unigolion pe byddai gwybodaeth yn cael ei diddymu o'u tystysgrifau. Er y gall fod gan gyrff cofrestredig rôl o ran cynghori ymgeiswyr am y broses anghydfod, yn amlwg nid yw hyn yn dderbyniol ac rwy'n cytuno y dylai'r DBS ddarparu cyngor i gyrff cofrestredig i esbonio hyn.

Gobeithiwn y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi.



Arglwydd Bates